

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Adeiladau

Rhagfyr 2021



# 1. Y cefndir

## Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau<sup>1</sup> (y "Bil") gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

*"A Bill to make provision about the safety of people in or about buildings and the standard of buildings, to amend the Architects Act 1997, and to amend provision about complaints made to a housing ombudsman."*

3. Cwblhaodd y Bil y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Hydref 2021. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd y dyddiad ar gyfer y cyfnod Adrodd wedi'i gadarnhau.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.
5. Ar 19 Gorffennaf 2021 gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) gerbron y Senedd<sup>2</sup> mewn perthynas â'r Bil.
6. Ar 21 Medi 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol<sup>3</sup> (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil.

---

<sup>1</sup> Y Bil Diogelwch Adeiladau, fel y'i cyflwynwyd [Bill 139-EN]

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau, Gorffennaf 2021

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Diogelwch Adeiladau, Medi 2021

---

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar y Memoranda erbyn 4 Tachwedd a 18 Tachwedd yn y drefn honno.<sup>4</sup> Cafodd y terfyn amser ei estyn wedi hynny i 16 Rhagfyr 2021.<sup>5</sup>

### **Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer**

---

**8.** Mae paragraffau 13 i 93 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch pa rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- cymal 1 (Trosolwg o'r Ddeddf)
- cymalau 30 i 40 (Awdurdodau rheoli adeiladu a rheoliadau adeiladu);
- cymalau 41 i 52 (Cymeradwywyr rheoli adeiladu ac arolygwyr adeiladu);
- cymalau 54 i 56 (Amrywiol a chyffredinol);
- cymalau 125 i 126 (Adfer a gwneud iawn);
- cymal 134 (Diogelwch tân);
- cymalau 143, 144 a 146 (Rhan 6 o'r Bil sy'n ymwneud â darpariaethau cyffredinol);
- Atodlenni 4 i 6 (Trosglwyddo swyddogaethau arolygwyr cymeradwy i reolwyr adeiladu cofrestredig; Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 3; Apelau a phenderfyniadau eraill).

**9.** Mae Llywodraeth y DU yn anghytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch cymalau 52, 126, 144 a 146.<sup>6</sup>

**10.** Mae paragraffau 11 i 33 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi asesiad pellach Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau newydd neu'r rhai a gaiff eu haddasu yn y Bil o ganlyniad i welliannau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, y bydd hefyd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Cyfeirir at ddiwygiadau i gymalau 30, 41, 146 ac Atodlen 5 – darpariaethau a

---

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau](#), Medi 2021; y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelwch Adeiladau \(Memorandwm Rhif 2\)](#), Medi 2021

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau](#), Tachwedd 2021

<sup>6</sup> Y Bil Diogelwch Adeiladau, [Nodiadau Esboniadol, Atodiad A](#) [Bill 139-EN]

---

nodwyd yn flaenorol yn y Memorandwm – ym Memorandwm Rhif 2, ynghyd â chymal 142. Nid oedd cymal 142 yn ddarpariaeth berthnasol a restrwyd yn y Memorandwm.

## **Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil**

---

**11.** Mae paragraffau 94 i 100 o'r Memorandwm, a pharagraffau 34 a 35 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**12.** Un o'r rhesymau y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yw "cyffredinrwydd systemau". Mae'n nodi:

*"Ers trosglwyddo swyddogaethau dros Reoliadau Adeiladu i Weinidogion Cymru yn 2012 mae'r newidiadau a ddatblygwyd yng Nghymru wedi ymdrin yn bennaf ag agweddau technegol ar y rheoliadau e.e. y newidiadau i arbed ynni (Rhan L) a chyflwyno systemau llethu tân mewn adeiladau preswyl. Felly, mae'n dal yn wir bod y system rheoli adeiladu ar gyfer Cymru a Lloegr yn dal i fod yr un fath i raddau helaeth. (...)*

*...mae'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd, Deddf Adeiladu 1984 (Deddf 1984), y mae'r Bil bellach yn eu cynnig, yn darparu'r arfau angenrheidiol y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu eu defnyddio i foderneiddio'r system yng Nghymru. Mae cadw strwythur tebyg yn Neddf 1984 o fudd i ddefnyddwyr ddwy ochr y ffin.*

*Yn yr un modd ar gyfer cyfraith diogelwch tân, er y bydd y drefn reoleiddio yn wahanol maes o law rhwng Cymru a Lloegr, mae cysyniadau craidd diogelwch tân (megis cymhwysedd mewn asesu risgiau tân) yn aros yr un fath yn y ddwy wlad ac yn wir mewn mannau eraill." <sup>7</sup>*

**13.** Gan fod landlordiaid yn berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr, mae'r Gweinidog hefyd yn bod "rhywfaint o fudd unwaith eto o ran cynnal dull gweithredu cyson eang".<sup>8</sup>

**14.** Ym mharagraff 100 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Nid yw'r cynigion yn ymwneud â chymhwyso cynigion y DU ar Gymru. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ddiwygiadau pwrpasol i raddau helaeth i Ddeddf 1984 sy'n addas i'r materion diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn*

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraffau 97 i 99.

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 99

---

*gwbl gyson â'n Papur Gwyn "Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021."*

**15.** Barn y Gweinidog, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm ac a gadarnhawyd ym Memorandwm Rhif 2, yw ei bod yn "briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU". Mae'n nodi:

*"Mae'r beirniadaethau a roddir ar y cyfnod dylunio ac adeiladu ar gyfer adeiladau yn glir ac mae angen diwygio'r rheoliadau. Rwyf o'r farn bod y newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1984 yn darparu'r arfau angenrheidiol y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu eu defnyddio i foderneiddio'r system yng Nghymru i sicrhau bod adeiladau'n cael eu cynllunio a'u hadeiladu at y safonau a ddisgwyliwn. Credaf mai'r Bil hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r darpariaethau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl, gan ein galluogi i sefydlu'r system ar gyfer diogelwch adeiladau. Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad." <sup>9</sup>*

---

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 109, a Memorandwm Rhif 2, paragraff 38

---

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**16.** Trafodwyd y Memoranda yn ein cyfarfod ar 11 Hydref 2021.<sup>10</sup> Y bwriad oedd clywed tystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 15 Tachwedd. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, cafodd y sesiwn ei chanslo ar fyr rybudd.<sup>11</sup> Yn lle'r sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu<sup>12</sup> at y Gweinidog ar 15 Tachwedd, ac ymatebodd y Gweinidog ar 16 Tachwedd.<sup>13</sup>

**17.** Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 6 Rhagfyr 2021.

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

**18.** Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 o ran ei rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil. Trafodir y materion hyn isod.

**19.** Nodwn fod rhywfaint o anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch pa rai o gymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod yr holl gymalau ac Atodlenni a restrir yn y Memoranda yn cyfrif fel dibenion datganoledig fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**20.** Nodwn ymhellach nad oes yr un o'r darpariaethau perthnasol a restrir yn y Memoranda yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**21.** Nodwn fod 16 o'r cymalau y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau newydd. Bydd y rhan fwyaf o'r pwerau i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd. Nodwn ymhellach fod cymal 143 yn cynnwys rhoi pŵer Harri VIII cyffredinol i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

---

<sup>10</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Hydref 2021](#)

<sup>11</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Tachwedd 2021](#)

<sup>12</sup> [Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 15 Tachwedd 2021

<sup>13</sup> [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 16 Tachwedd 2021

---

**22.** O ran y pwerau cychwyn sydd ar gael i Weinidogion Cymru, nodwn fod y Gweinidog, ym Memorandwm Rhif 2, yn cadarnhau y gwnaed diwygiadau i'r Bil yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ôl paragraff 15 o'r Memorandwm:

*"Mae cymal 146 (Gwelliant 20) yn rhoi pwerau cychwyn penodol i Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau wedi'i gyfyngu i Ran 3 a chymal 134 sef y rhannau o'r Bil yr ydym wedi gofyn am ddarpariaeth bwrpasol ar gyfer Cymru ynddynt. Mae'r cymal wedi'i ddrafftio er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a swyddogaeth Gweinidogion Cymru. Mae gwelliannau [21, 35 a 38] yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn."*

**23.** Nodwn ymhellach y bydd rhai o'r darpariaethau yn y Bil y gofynnir i'r Senedd roi ei chydysyniad ar eu cyfer yn cael eu cychwyn drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd y pŵer yng nghymal 148(4)(c) (daeth cymal 146 yn gymal 148 yn dilyn diwygiadau yn ystod y cyfnod Pwyllgor).<sup>14</sup>

**Argymhelliad 1.** Cyn gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog sicrhau ei fod yn cael ei ddiwygio er mwyn darparu bod Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer Cymru, yn cael pwerau cychwyn sy'n cyfateb i'r rhai a roddwyd eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel bod Gweinidogion Cymru yn llwyr reoli pryd y daw'r darpariaethau ar gyfer Cymru i rym.

### **Deddfu mewn meysydd datganoledig a chapasiti Llywodraeth Cymru**

---

**24.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi rhannu<sup>15</sup> egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU â ni, lle nodir y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. O gofio'r egwyddor hollbwysig hon, gofynnwyd i'r Gweinidog nodi ei rhesymau pam nad yw'n cael ei dilyn mewn perthynas â'r Bil. Wrth roi ei hesboniad, gofynnwyd iddi hefyd gadarnhau:

- a oedd yn credu mai dim ond drwy ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr y gellir sicrhau cyffredinrwydd a pham na ellir defnyddio deddfwriaeth y Senedd i ddiwygio deddfwriaeth Cymru a Lloegr i gyflawni neu gadw dull cyffredin o weithredu;

---

<sup>14</sup> Gweler [y Bil Diogelwch Adeiladau, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor](#) [Bill 177]

<sup>15</sup> [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol](#), 22 Hydref 2021

---

- a oedd sicrhau dull cyson o weithredu yn fwy o flaenoriaeth iddi na'r egwyddor y dylai deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu yng Nghymru;
- ei barn am y goblygiadau cyfansoddiadol cronrus yn sgil gofyn a chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd cwbl ddatganoledig.

**25.** Dywedodd y Gweinidog:

*"Drwy estyn y rhannau o'r Bil Diogelwch Adeiladau i Gymru (yn unol â'n cais) bydd cyfle i ymateb i rai o'r materion a godwyd yn sgil trychineb Grenfell cyn y byddai modd gwneud hynny pe baem yn aros am Fil gan y Senedd. (...)*

*Mae'r llywodraeth hon wedi dweud yn glir, er bod diogelu'r setliad datganoli yn flaenoriaeth hollbwysig o hyd ac mai ein hegwyddor gyffredinol yw y dylid deddfu yn y Senedd mewn meysydd datganoledig, y dylem fod yn agored i fod yn bragmatig o ran defnyddio deddfwriaeth y DU i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru lle y bo angen. Rwy'n credu bod trychineb Grenfell a'r angen i ymateb i'r adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a gynhaliwyd yn ei sgil wedi creu amgylchiadau lle mae'n briodol defnyddio deddfwriaeth y DU. Felly, yn fy marn i, y Bil hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddwyn y darpariaethau hyn i rym mor fuan â phosibl. Er y gallem gyflwyno'r un darpariaethau yn ein Bil diogelwch adeiladau yn y dyfodol, mae bron yn sicr mai'r un fyddai'r darpariaethau ond y byddent yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.*

*Mae'r goblygiadau cyfansoddiadol cronrus yn gyfyngedig, yn fy marn i. Nid yw cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau darpariaethau i Gymru a fydd yn diweddar ac yn moderneiddio hen ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig yn newid mewn unrhyw ffordd nac yn tanseilio'r ffaith bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Gallwn wneud diwygiadau yn y dyfodol os bydd angen."<sup>16</sup>*

**26.** Nid ydym wedi ein darbwylo gan resymau'r Gweinidog ac rydym am herio dwy agwedd benodol ar ei hymateb.

**Casgliad 2.** Mae sylwadau'r Gweinidog bod y Bil yn gyfle i ymateb i'r materion a godwyd yn sgil trychineb Grenfell cyn y byddai modd gwneud hynny "pe baem yn aros" am Fil gan y

---

<sup>16</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 1



Senedd yn awgrymu mai rôl oddefol sydd gan y Gweinidog yn y penderfyniad hwn. Mae hynny'n gamarweiniol yn ein barn ni, er ei fod yn sicr yn anfwriadol.

**27.** Byddem ni'n dadlau bod y Senedd yn aros i'r Gweinidog gyflwyno Bil arfaethedig Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae sylwadau'r Gweinidog yn awgrymu mai rhywun arall sy'n gyfrifol am gyflwyno Bil i Gymru i gyflawni'r diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi ymgynghori arnynt yn y maes hwn.

**28.** Nid ydym yn anghytuno â'r Gweinidog bod angen rhoi diwygiadau o'r fath ar waith fel mater o flaenoriaeth. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu a fydd dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU yn cyflawni'r newidiadau a ddymunir i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru yn gynt na phe bai'r Gweinidog wedi cyflwyno Bil i Gymru ac wedi defnyddio'r hyblygrwydd yng ngweithdrefnau'r Senedd ei hun.

**29.** Os oedd y Gweinidog o'r farn bod angen i'r Senedd roi sylw ar frys i Fil penodol i Gymru, gallai fod wedi cyflwyno ei rhesymau i Bwyllgor Busnes y Senedd pan oedd yn cyflawni'r rôl o bennu'r amserlen ar gyfer ystyried y Bil a Chyfnodau 1 a 2. Drwy weithio gyda Phwyllgorau perthnasol y Senedd, gellid bod wedi cynnig amserlen wedi'i chwtoegi a oedd dal yn deg ac yn adlewyrchu'r angen i flaenoriaethu Bil ar ddiogelwch adeiladau. Byddai Llywodraeth Cymru ei hun wedyn yn rheoli'r amserlen ar gyfer Cyfnod 3 a Chyfnod 4 o'r broses graffu ddeddfwriaethol. At hynny, pe bai'r Gweinidog yn credu bod angen y diwygiadau i gyfraith diogelwch adeiladau cyn gynted â phosibl, gallai'r Gweinidog fod wedi cynnig i'r Senedd y dylai'r Bil i Gymru fod yn ddarostyngedig yn swyddogol i weithdrefn Biliau brys y Senedd.

**30.** Cyflwynwyd Bil y DU i Senedd y DU ym mis Gorffennaf eleni ac ar hyn o bryd mae'r Tŷ cyntaf yn dal i graffu arno (Tŷ'r Cyffredin). Nid oes amserlen ar gyfer ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi wedi'i chyhoeddi eto. Gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros yr amserlen ar gyfer craffu ar Fil yn Senedd y DU tra bod ganddi reolaeth sylweddol dros amserlenni o'r fath yn y Senedd, ni welwn unrhyw reswm pam na allai camau fod wedi'u cymryd i gyflwyno Bil i Gymru gerbron y Senedd a'i gyflawni'n unol â'r un amserlen â Bil y DU (neu hyd yn oed yn gyflymach na hynny).

**31.** Er nad yw byth yn ddelfrydol cwtoegi'r amser ar gyfer craffu ar Fil gerbron y Senedd, credwn y byddai wedi bod yn well na defnyddio Bil y DU i ddeddfu ar ddiogelwch adeiladau yng Nghymru y tro hwn.

**32.** Trafodir rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi hynt y Bil maes o law yn yr adroddiad hwn.

**Casgliad 3.** Agwedd arall ar ymateb y Gweinidog sy'n peri pryder i ni yw ei datganiad ei bod yn ystyried mai cyfyngedig yw goblygiadau cyfansoddiadol cronus y weithred o ofyn a

---

chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd cwbl ddatganoledig. Rydym yn anghytuno'n barchus. Mae gennym bryderon sylweddol am effaith gronnus o'r fath a chredwn y bydd yn fwy difrifol nag y mae'r Gweinidog yn ei awgrymu. Rydym yn parhau i bryderu'n fawr am ddull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau'r DU mor helaeth i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

**Argymhelliad 2.** Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog ddarparu asesiad llawn a manwl o'i barn:

- mai cyfyngedig yw goblygiadau cyfansoddiadol cronus y weithred o ofyn a chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd cwbl ddatganoledig o fewn ei chylch gorchwyl;
- nad yw ei dull gweithredu mewn unrhyw ffordd yn tanseilio'r ffaith bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

**Casgliad 4.** Rydym yn monitro'r defnydd o Filiau'r DU i gyflwyno cyfraith ar gyfer Cymru a'r effaith gronnus ar y Senedd, ar Gymru ac ar ddatganoli, a byddwn yn parhau i wneud hynny drwy'r Chweched Senedd.

**33.** Mae'r Gweinidog eisoes wedi dweud bod materion o ran capasiti Llywodraeth Cymru yn un o'r rhesymau dros ddefnyddio Biliau y DU i ddeddfu ar gyfer Cymru.<sup>17</sup> Gofynnwyd iddi a oes gan ei hadran y capasiti angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a hefyd:

- pam y mae'n datgan yn y Memorandwm nad oes amser i'r Senedd gyflwyno'r darpariaethau yn y Bil;
- beth yw ei blaenoriaethau deddfwriaethol eraill a pham nad oes capasiti i gyflwyno deddfwriaeth y Senedd yn y meysydd hyn; ac
- a yw wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ac Aelodau o'r Senedd ynghylch a fyddent yn blaenoriaethu cynnwys y Bil hwn dros Filiau eraill ac a fyddai'n well ganddynt gael deddfwriaeth y Senedd hyd yn oed pe bai'n cymryd mwy o amser na mynd ar drywydd y darpariaethau hyn drwy Fil y DU.

**34.** Dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>17</sup> Gweler [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd](#), Medi 2021

*"...mae gennym lawer o flaenoriaethau eraill, ac er mwyn cyflawni pob un ohonynt, bydd angen inni weithredu mewn ffordd bragmatig ac, yn wir, mewn ffordd arloesol. Mae gweithredu yn y ffordd a gynigiwn er budd pobl Cymru yn fy marn i. Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein bwriad i ddefnyddio'r Bil Diogelwch Adeiladau a bu cefnogaeth gyffredinol o blaid gwneud hynny. (...)*

*Mae adnoddau wedi cael eu neilltuo i gefnogi hynt y Bil Diogelwch Adeiladau a datblygu is-ddeddfwriaeth ganlyniadol a chanllawiau cysylltiedig i gyflwyno'r gyfundrefn rheoli adeiladu gadarnach a gynigir yn ein Papur Gwyn, 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'.*

*Mae'r penderfyniad i ddefnyddio'r hyn a oedd yn y Bil i Loegr yn adlewyrchu natur frys y materion y mae angen ymdrin â nhw yn sgil Grenfell a'r galwadau ar amser y Senedd. Rydym wedi gweithredu mewn ffordd bragmatig i estyn cwmpas y Bil Diogelwch Adeiladau er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru lle y bo'n briodol. Mae'r amcanion cyffredin a ysgogwyd gan adroddiad adolygiad annibynnol y Fonesig Judith Hackitt a'r sylfaen ddeddfwriaethol gyffredin gyfredol yn awgrymu mai'r Bil Diogelwch Adeiladau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddwyn y darpariaethau hyn i rym mor fuan â phosibl. Er y gallem gyflwyno'r un darpariaethau yn ein Bil diogelwch adeiladau yn y dyfodol, mae bron yn sicr mai'r un fyddai'r darpariaethau ond y byddent yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.*

*Nododd ein Papur Gwyn, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, fod angen gweithredu ar fyrder a'n bod yn bwriadu defnyddio Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU. Cyn dadansoddi'r ymatebion a'n hymateb fel llywodraeth, sydd i'w cyhoeddi'n ddiweddarach eleni, mynegwyd cefnogaeth glir i gynigion y Papur Gwyn yn gyffredinol, o ran yr elfennau sy'n gyffredin i Loegr, e.e. Deiliaid Dyletswydd, Camau Porth a'r Edefyn Euraid ac elfennau sy'n bwrpasol i Gymru e.e. pŵer Gweinidogion Cymru i ddiffinio adeiladau risg uwch ac awdurdodau lleol fel unig reoleiddiwr adeiladau risg uchel."<sup>18</sup>*

**35.** Yn y Memorandwm, dywed y Gweinidog fod darpariaethau'r Bil ar gyfer Cymru yn "bwrpasol". Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud bod y darpariaethau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cysondeb â'r drefn ar gyfer Lloegr.<sup>19</sup> Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro sut y gallai'r

---

<sup>18</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 2

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraffau 99 i 100.

---

darpariaethau fod yn bwrpasol a hefyd sicrhau cysondeb. Gofynnwyd hefyd ai drafftwyd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru neu gwmsler seneddol Llywodraeth y DU a oedd wedi drafftio'r darpariaethau pwrpasol i Gymru.

**36.** Dywedodd y Gweinidog:

*"Mae'r Bil yn ymateb i argymhellion penodol iawn adroddiad annibynnol Hackitt ac felly mae'n cynnwys elfennau y byddem yr un mor awyddus i'w cyflwyno yng Nghymru gan fod yr un deddfwriaeth graidd y mae'r adroddiad yn ei beirniadu, sef Deddf Adeiladu 1984, y mae'r Bil yn ei diwygio, yn gymwys i Gymru a Lloegr, e.e.: Cyfrifoldebau deiliaid dyletswydd; Camau craffu porth (cais cynllunio, cyn adeiladu a chyn meddiannu); Gofynion cymhwysedd ar gyfer y diwydiant a rheoleiddwyr.*

*Ond mae yna'n rhoi'r holl bwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru i addasu model Hackitt i Gymru e.e. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu beth yw adeilad risg uwch, ac i awdurdodau lleol weithredu fel y rheoleiddiwr (gan ddileu'r dewis o opsiynau sy'n ymwneud â'r sector preifat ar gyfer adeiladau risg uwch).*

*Rwy'n ystyriol o'r ffaith bod llawer o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu yn gweithio yng Nghymru a Lloegr a'i bod yn werth cael darpariaethau tebyg sy'n gymwys yn y naill wlad a'r llall lle mae gweithgarwch trawsffiniol a'u bod yn addas ar gyfer ein priod anghenion. Cafodd y gwaith drafftio cychwynol ei wneud gan Lywodraeth y DU a gwnaeth ein swyddogion polisi a'n swyddogion Gwasanaethau Cyfreithiol graffu arno, ei ddiwygio yn ôl yr angen a chytuno arno."<sup>20</sup>*

**37.** Nid ydym wedi ein darbwylo gan ddadleuon y Gweinidog.

**38.** Fel y nodwyd uchod mewn paragraffau blaenorol wrth drafod dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU i gyflawni'r diwygiadau hyn, nid yw'n glir i ni pam na ddyrannodd y Gweinidog adnoddau'n wahanol yn ei hadran fel eu bod ar gael i gefnogi'r gwaith o ddrafftio a phasio Bil i Gymru drwy'r Senedd.

**39.** Rydym yn gweld rhesymau a dull gweithredu'r Gweinidog yn arbennig o ddryslyd o gofio y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y cymalau pwrpasol perthnasol yn y Bil, a gwneud sylwadau ar gymalau drafft a baratowyd gan

---

<sup>20</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 15

gwmsler cyfreithiol Llywodraeth y DU, a golygu'r cymalau hynny. At hynny, mae'n amlwg bod gwaith rhynglywodraethol wedi parhau tra bod y Bil yn mynd rhagddo drwy Senedd y DU, gan arwain at oblygiadau o ran amser ac adnoddau i Lywodraeth Cymru.

**40.** O ran yr adnoddau sydd eu hangen, nid yw'n glir i ni a yw'r baich ar Lywodraeth Cymru wrth gefnogi hynt Bil y DU yn llai dwys, mewn gwirionedd, na phe bai'n drafftio Bil i Gymru a'n cefnogi'r Senedd i graffu arno. Nodwyd hyn yn ein hadroddiad blaenorol ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd hefyd.<sup>21</sup>

**41.** O ran sylwadau'r Gweinidog bod llawer o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu yn gweithio yng Nghymru a Lloegr a'i bod felly'n werth cael darpariaethau tebyg yn y ddwy wlad, ni welwn pam na ellid cyflawni cyfraith gyffredin ledled Cymru a Lloegr drwy Fil gan y Senedd.

**Argymhelliad 3.** Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog roi esboniad llawn ynghylch pam y penderfynodd ddyrannu adnoddau yn ei hadran i gefnogi'r gwaith o ddrafftio a phasio Bil y DU yn hytrach na dyrannu adnoddau i hwyluso'r gwaith o ddrafftio a chraffu ar Bil i Gymru. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog roi manylion am faint o swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi'u dyrannu i'r tasgau a ganlyn:

- paratoi'r cyfarwyddiadau cyfreithiol y byddai cwnsler cyfreithiol Llywodraeth y DU wedi'u defnyddio wrth baratoi'r darpariaethau pwrpasol i Gymru yn y Bil;
- craffu ar y cymalau drafft a baratowyd gan ddrafftwyr cwnsler cyfreithiol Llywodraeth y DU a'u diwygio cyn iddynt gael eu cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno gerbron Senedd y DU;
- gwaith rhynglywodraethol parhaus ar y Bil, gan gynnwys trafod a drafftio unrhyw ddiwygiadau i'r Bil;
- monitro hynt y Bil drwy Senedd y DU a darparu'r cyngor a'r diweddariadau angenrheidiol.

### **Hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru**

---

**42.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gadw llygad ar hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae hyn yn dilyn deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun yn y Bumed Senedd. Mae *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler

---

<sup>21</sup> Gweler yr Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, paragraff 24

---

Cyffredinol i baratoi rhaglen ar gyfer pob tymor yn y Senedd sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Cyflwynwyd y rhaglen gyntaf – Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021-2026 – gerbron y Senedd ym mis Medi 2021.

**43.** O gofio'r cyd-destun hwn, gofynnwyd i'r Gweinidog pa asesiad yr oedd wedi'i wneud o effaith gwneud y darpariaethau hyn ym Mil y DU ar ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o ran hygyrchedd cyfraith Cymru, yn enwedig o ran diffyg deddfwriaeth ddwyieithog, a'r ffaith y bydd y gyfraith mewn perthynas â diogelwch adeiladau yn cael ei chynnwys ym Mil y DU (sy'n diwygio Deddf bresennol) ac mewn Bil ar wahân gan y Senedd.

**44.** Rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod caniatáu i Senedd y DU ddeddfu yn y maes hwn, sy'n golygu y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn Saesneg yn unig, yn "amlwg yn anffodus". Fodd bynnag, rydym yn anghytuno bod y canlyniad hwn "yn anochel".<sup>22</sup>

**45.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

*"...bydd y manylion hollbwysig sy'n rhoi darpariaethau'r Bil ar waith ac y bydd y byd allanol yn dueddol o ryngweithio â nhw, sef y rheoliadau, yn ddwyieithog. (...)*

*O ran y pryder yr ymdrinnir â diogelwch adeiladau mewn dau ddarn o ddeddfwriaeth, y gwir amdani yw bod dwy elfen ar wahân y mae angen ymdrin â nhw: i. dylunio ac adeiladu; ii. meddiannaeth. Er bod y rhyngwyneb rhwng cwblhau'r gwaith adeiladu a pharatoi ar gyfer meddiannaeth yn bwysig, bydd y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer y ddwy elfen yn wahanol."*<sup>23</sup>

**46.** Gofynnwyd i'r Gweinidog beth yr oedd rhanddeiliaid Cymru wedi'i ddweud ynghylch bwrw ymlaen â materion o ran diogelwch adeiladau mewn Bil ar gyfer y DU yn ogystal â Bil gan y Senedd. Nodwn ymateb y Gweinidog:

*"Nododd y Papur Gwyn, Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, ein bwriad i ddefnyddio'r Bil, gan amlinellu ei nodweddion hanfodol ac roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn yn gyffredinol. Rwy'n disgwyl y bydd y gwaith dadansoddi ac ymateb y Llywodraeth yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Roedd y Papur Gwyn yn adlewyrchu'r dulliau gweithredu gwahanol roedd eu hangen ar gyfer y cam dylunio ac adeiladu, ac yna'r cam meddiannu. Roedd y cyntaf yn welliannau i'r system rheoli adeiladu*

---

<sup>22</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 3

<sup>23</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 3

---

*bresennol a lywiwyd gan waith a oedd eisoes wedi'i wneud ar gyfer y Bil drafft gwreiddiol i Loegr yn unig ac roedd y llall yn gofyn am ffordd o feddwl fwy sylfaenol ynghylch dull rheoleiddio newydd. Felly, bydd y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cam meddiannu yn cymryd mwy o amser."*<sup>24</sup>

**47.** Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd a oedd ganddi unrhyw bryderon y bydd bwrw ymlaen â deddfwriaeth ar ddiogelwch cylch bywyd adeiladau mewn dau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith ar gydlyniant a hygyrchedd y ddeddfwriaeth honno. Dywedodd y Gweinidog wrthym: "*Nid ystyrir bod hyn yn achos pryder gan y bydd y ddau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth yn ymdrin ag agweddau ar wahân ar fywyd adeilad ar y cyfan*". Ychwanegodd:

*"...rydym yn cymryd pob gofal i sicrhau eglurder ar y cam trosglwyddo ar ôl cwblhau adeilad er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chasglu, yn y fformat cywir, a'i throsglwyddo i'r rhai sy'n gyfrifol am y cam meddiannu. Mewn ffordd debyg, bydd angen i'r rheoliadau ymdrin â rheoli'r gwaith o adnewyddu yn y dyfodol yr hyn fydd yn adeilad wedi'i feddiannu a'r rhyngwyneb rhwng hynny a'r gyfundrefn rheoliadeiladu."*<sup>25</sup>

**48.** Yn ein barn ni, mae deddfu ar gyfer Cymru yn y maes hwn drwy ddefnyddio Bil y DU a Bil i Gymru yn y dyfodol yn mynd yn groes i gynlluniau Llywodraeth Cymru, a'i hymrwymiad, i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'n arbennig o anodd i ni ddeall y dull hwn o gofio bod rheoliadau tai ac adeiladu yn "feysydd posibl ar gyfer eu cydgrynhoi sy'n cael eu hystyried" gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Chweched Senedd.<sup>26</sup>

**Argymhelliad 4.** Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl ynghylch sut y mae ei chynlluniau i ddefnyddio'r Bil hwn, a Bil i Gymru yn y dyfodol yn nhymor y Senedd hon sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau, yn cydfynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog ymdrin â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi bod rheoliadau tai a rheoliadau adeiladu yn feysydd cyfreithiol posibl i'w cydgrynhoi yn nhymor y Chweched Senedd.

---

<sup>24</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 16

<sup>25</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 17

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021

---

## Cyflawnrwydd gwybodaeth a chyfleoedd i'r Senedd wneud gwaith craffu

---

**49.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon ar ansawdd a chyflawnrwydd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Senedd yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2. Ychwanegodd:

*"Fodd bynnag, rwy'n cydnabod ehangder a chymhlethdod y Bil Diogelwch Adeiladau ac rwyf wedi cynnig trefnu sesiynau briffio technegol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai pe bai'n dymuno hynny."*<sup>27</sup>

**50.** Er ein bod yn cydnabod i'r Gweinidog gynnig trefnu sesiwn briffio technegol ar ddarpariaethau'r Bil ar gyfer pwyllgorau'r Senedd, rydym yn tynnu sylw'n barchus at y ffaith nad yw hyn yr un peth o gwbl â'r gwaith craffu manwl a phriodol y byddem wedi'i gyflawni mewn perthynas â Bil i Gymru.

**51.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd ganddi unrhyw bryderon nad yw Aelodau'r Senedd wedi cael cyfle i graffu'n fanwl ar effaith a chwmpas y 35 cymal a gynigir ar gyfer Cymru yn y Bil ar hyn o bryd. Wrth ymateb, gofynnwyd iddi hefyd fynd i'r afael â'r cwestiynau a ganlyn:

- Pa waith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud â rhanddeiliaid yng Nghymru ar y gwaith o ddatblygu'r Biliau hyn?
- A allai roi unrhyw enghreifftiau o sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch unrhyw un o'r Biliau hyn o ystyried y materion a nodwyd yn ystod y gwaith o graffu ar y Biliau yn Senedd y DU?

**52.** Atebodd y Gweinidog:

*"Yn achos y Bil Diogelwch Adeiladau, rwy'n cydnabod y pryder na fydd y Senedd yn cael cyfle i graffu'n llawn ar fil mor eang ei gwmpas, sef pryder a godwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Felly, rwyf wedi cynnig y dylai fy swyddogion gynnal sesiynau briffio technegol i fynd drwy'r Bil fesul cymal os bydd angen er mwyn helpu'r Pwyllgor i ddeall yn llawn yr hyn y mae'r bil yn ei ddarparu i Gymru. Rwyf hefyd wedi cynnig rhoi manylion am y pwerau dirprwyedig yn y Bil.*

*O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel y soniais uchod, nodwyd y bwriad i ddefnyddio agweddau ar Fil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU yn ein*

---

<sup>27</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 4

---



*Papur Gwyn, y bu cefnogaeth eang iddo, a chaiff y manylion eu nodi yn ein hymateb fel llywodraeth y bwriadwn ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.*"<sup>28</sup>

**53.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog gadarnhau a yw'n bwriadu cyhoeddi rheoliadau drafft fel y gall y Senedd graffu ar ei bwriad mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil. Wrth ofyn hynny, tynnwyd sylw'r Gweinidog at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny o ran y rheoliadau a gaiff eu cyflwyno ar gyfer Lloegr ym mis Gorffennaf 2021. Dywedodd y Gweinidog:

*"Nid oes unrhyw fwriad i gyhoeddi rheoliadau dangosol yn ystod hynt y Bil drwy Senedd y DU ond byddwn yn ystyried maes o law sut y byddwn yn llunio'r trefniadau datblygu ac ymgynghori ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddwn yn ei chyflwyno ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Un opsiwn fyddai ymgynghoriad ar reoliadau drafft."*<sup>29</sup>

**54.** Mae ymateb y Gweinidog yn siomedig o gofio y bydd dinasyddion a rhanddeiliaid perthnasol yn Lloegr wedi cael y budd o weld rheoliadau drafft cyhoeddedig.

**55.** Nid yw'n glir i ni ychwaith pam y mae'r Gweinidog yn dweud, wrth ateb ein cwestiwn, mai "un opsiwn fyddai" ymgynghori ar reoliadau drafft ar ôl iddi ddweud eisoes wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y "bydd y rheoliadau y byddwn yn eu cyflwyno yn dilyn hyn yn destun ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu"<sup>30</sup>.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar reoliadau drafft a fydd yn rhoi effaith i'r darpariaethau yn y Bil.

**56.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog ymdrin â'r pryderon nad yw'r pwyllgor biliau cyhoeddus wedi craffu digon ar y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil a'r ffaith nad oes unrhyw Aelodau Seneddol o Gymru wedi'u cynnwys yng ngwaith y pwyllgor hwnnw? Dywedodd y Gweinidog:

*"Mae'r graddau y bydd y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn craffu ar ddarpariaethau Cymreig y Bil Diogelwch Adeiladau a'r ffaith nad oes unrhyw Aelodau Seneddol o Gymru yn aelodau o'r Pwyllgor yn faterion i Senedd y DU."*<sup>31</sup>

---

<sup>28</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 5

<sup>29</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 19

<sup>30</sup> [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#), 22 Hydref 2021

<sup>31</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 5

---

**57.** Rydym yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros ba Aelodau Seneddol sy'n eistedd ar bwyllgorau biliau cyhoeddus yn Senedd y DU na sut y mae'r pwyllgorau hynny'n craffu ar Filiau. Fodd bynnag, mae'r ffeithiau hyn yn cryfhau'r dadleuon dros fynd ar drywydd Bil i Gymru.

**58.** Rydym yn ymwybodol y gwnaed gwelliannau i'r Bil yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pam nad oedd y darpariaethau a ychwanegwyd yn sgil y gwelliannau hyn wedi'u cynnwys yn y Bil pan gafodd ei gyflwyno, na'u hadlewyrchu felly yn y Memorandwm. Atebodd y Gweinidog:

*"Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Bil yn golygu nad oedd rhai manylion wedi cael eu cwblhau. Roedd y rhai a gyflwynwyd yn ystod cam y Pwyllgor fel gwelliannau a oedd yn ymwneud â Chymru yn ymwneud ag ehangu darpariaethau ar gyfer cydweithredu rhwng cyrff a rhannu gwybodaeth ynghyd ag estyn pŵer i sicrhau hyblygrwydd wrth ddiffinio 'adeiladau risg uwch'. Yn amodol ar fy ateb i Gwestiwn 20 isod, ni ddisgwyliaf y bydd unrhyw welliannau pellach o sylwedd mewn perthynas â Chymru."*<sup>32</sup>

**59.** Nododd y Gweinidog hefyd ei bod yn gofyn am welliannau pellach i'r Bil i estyn cwmpas yr Ombwdsmon Adeiladu Cartrefi Newydd i Gymru, ac y byddai angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pe bai Llywodraeth y DU yn cytuno i wneud hynny. Dywedodd y Gweinidog:

*"Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU mewn ffordd gadarnhaol gyda'r nod o estyn y cynllun gan ein bod yn credu y gallai'r cynllun fod yn fuddiol i berchenogion cartrefi a busnesau yng Nghymru. Bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol os caiff y darpariaethau hyn eu hestyn i Gymru a chaiff hwn ei osod ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil. Mae'r amseriad yn aneglur o hyd, ond rydym yn gweithio ar sail mis Rhagfyr/Ionawr."*<sup>33</sup>

---

<sup>32</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 18

<sup>33</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymateb i gwestiwn 20

---